# Crewyr Cadw: Comics



# Y Brenin Edward I

## a

# Llywelyn Fawr



Cyfarwyddwr Celf: Nick Price
Inclwr: Nick Price
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited

# Y Brenin Edward I a Llywelyn Fawr









Ond nid oedd pob un o'r arglwyddi'n hapus...


Roedd Simon de Montfort, 6ed Iarll Caerlŷr, yn gefnder i'r Brenin Edward I. Roedd yn ddyn pwerus a dylanwadol iawn. Roedd yn gwybod, pe byddai'r Brenin Edward I yn marw cyn cael mab,

mai ef fyddai'n frenin!




Llywelyn! Sut wyt ti, fy hen gyfaill!
Simon de Montfort! Yn dda iawn! Wel! Beth yw'r rheswm am yr ymweliad hwn â'r gornel anghysbell a theg hon o Gymru?
Dere, gyfaill, a wyt ti'n dal i fod yn hoff o fy merch?
Efallai y gallwn ni greu uniad nerthol rhwng ein teuluoedd!
Gad i ni yfed a bwyta, mae hon yn swnio fel sgwrs dda!
Mae Elinor, dy ferch, yn arbennig o hardd ac ni fyddai dim yn rhoi mwy o bleser i mi na'i gweld hi eto!
Gad i mi wybod beth sy'n digwydd yn Lloegr!
Doedd y Brenin Edward ddim yn hapus nad oeddet wedi dod i'w goroniad...
Rwyt ti a fi'n gwybod nad yw'n ddiogel i mi yno!
Fe wnes i sylwi ar dy frawd, Dafydd ap Gruffudd – mae'n ymddangos ei fod yn agos iawn i frenin Lloegr bellach...
Mae'n gwneud rhyw ddrygioni, creda fi!
Mae Dafydd eisiau mwy bob amser. Cytunais i â thad y Brenin Edward i roi mwy o diroedd iddo, ond mae am gael mwy bob amser! Ei drachwant e sy'n ei gymell.
Rwy'n ofni bod rhyfel ar ddod ac y bydd yn rhaid i mi ymladd yn erbyn fy mrawd yn ogystal â brenin!


Crewyr Cadw: Comics















Bydd hynny'n ei atal! Mae ein llu o 15,000 o filwyr yn barod. Pryd byddwn ni'n gadael Caerwrangon?
Byddwn ni'n gadael ym mis Gorffennaf, Dafydd. Byddwn yn teithio ar hyd arfordir gogledd Cymru. Rwy'n bwriadu codi cestyll yn y Fflint ac yn Rhuddlan. Bydd angen lleoedd arnom i orffwys rhwng ymladd!
Llywelyn yn Nhwtil, Rhuddlan, 1277
Ni allaf gredu bod y brenin yn ymosod ar fy nhiroedd o ganlyniad i mi beidio â mynd i'w goroniad!
Mae fy mrawd yn drachwantus, o'i goryn i'w sawdl! Ni fydd yn rhoi'r gorau nes y bydd yn Dywysog Cymru!
Syr! Maen nhw yma! Mae byddin y Brenin Edward wedi cyrraedd!
Nid oes bwyd gan fy myddin i oherwydd bod Edward wedi trechu fy nghynlluniau a thorri'n cyflenwad bwyd o Ynys Môn. Nid oes gen i unrhyw ddewis ond cyd-drafod.
Llywelyn, dydw i ddim yn ddyn cas, ond dwi ddim am i ti feddwl y gelli di fod yn amharchus tuag ataf, a hynny'n ddi-gosb!
Brenin Edward, rydych wedi sicrhau nad oes gen i ddewis, mae fy myddin yn llwgu. Rwy'n ildio fy lluoedd i chi.
Byddi di'n llofnodi hwn, Cytuniad Aberconwy. Gwnaf i adael i ti gadw'r teitl Tywysog Cymru ac fe gei di gadw'r tiroedd i'r gorllewin o afon Conwy. Bydd Dafydd, dy frawd, yn cymryd dy diroedd i'r dwyrain o'r afon. Af i â'r tiroedd ychwanegol! Ac fe wnei di addo bod yn ffyddlon i mi!


Caerwrangon, Lloegr, 1278.
Fel gwobr am fod yn ffyddlon i mi dros y flwyddyn ddiwethaf, mi wnaf i ryddhau Elinor de Montfort i ti.
Llywelyn!
Elinor! Diolch, Eich Mawrhydi!
Priododd Elinor a Llywelyn yn ffurfiol yn Eglwys Gadeiriol Caerwrangon yn 1278. Edward hebryngodd y briodferch, ei gyfnither, yn y briodas ac efe a dalodd am wledd y briodas. Daeth Elinor i gael ei hadnabod yn swyddogol fel Tywysoges Cymru ac Arglwyddes Eryri.
Cymru, 1282. Mae Llywelyn a Dafydd yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu Cymru.
Mae Edward am gael gormod o reolaeth dros Gymru, Llywelyn. Mae'n rhaid i ni ei wrthsefyll!
Rwyt ti'n gyflym i newid ochrau, frawd!
Dw i ar yr ochr sy'n sicrhau mai'r Cymry sy'n rheoli Cymru!
Paid â gwneud unrhyw beth byrbwyll, Dafydd. Mae Edward yn rhy bwerus!
Ond ni wrandawodd Dafydd, ac fe benderfynodd ymosod ar Gastell Penarlâg, gan ddechrau rhyfel yn erbyn y Brenin Edward I.
Cipiwch y castell hwn, gadewch i ni daflu'r Saeson allan!


Nid oedd gan Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru, ddewis ond cefnogi ei frawd dros y Brenin Edward I, brenin Lloegr. Yn hwyr yn 1282, fe rannodd ei luoedd gyda'i frawd, Dafydd ap Gruffudd. Aeth Llywelyn â'i luoedd ef tuag at dde Cymru, er mwyn dechrau ail ffrynt yn y rhyfel.
Nid yw byddin Lloegr yn symud. Gwnawn ni adael ein byddin ar y bryn ger Cilmeri a mynd i siarad â'r arweinwyr lleol yn Llanfair-ym-Muallt.


Yn Llanfair-ym-Muallt
Syr, mae'r Saeson wedi ymosod arnom!
Maen nhw wedi gorasgellu ein lluoedd! Rydym mewn perygl!
Fy ngheffyl! Yn gyflym!
Yn ôl i'r fyddin!


11 Rhagfyr 1282, Brwydr Pont Irfon.
Trechwyd symudiadau a dulliau ymladd lluoedd Llywelyn. Cafodd Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru, ei fwrw i'r llawr ar gyrion yr ymladd wrth iddo geisio dychwelyd i brif gorff byddin Cymru.


Ar ôl marwolaeth Llywelyn, ei frawd, Dafydd ap Gruffudd, oedd yr olaf i feddu ar deitl Tywysog Cymru, ond dim ond am ychydig fisoedd.
Cuddiodd Dafydd a'i ddynion ar lethrau uchel mynyddoedd Eryri rhag lluoedd y Brenin Edward, a oedd yn eu hela.
Ar 22 Mehefin 1283, cafodd Dafydd ap Gruffudd ei gipio o'r diwedd a'i hebrwng o flaen y Brenin Edward I.
Danfonwyd merched Llywelyn a Dafydd i leiandai i ddod yn lleianod.
Bwriadai'r Brenin Edward I reoli Cymru gyfan. Cododd gestyll yng Nghonwy, Caernarfon a Harlech er mwyn atal unrhyw un o'r uchelwyr Cymreig eraill rhag penderfynu ymladd yn erbyn rheolaeth Lloegr, a daeth cyfnod Tywysogion Cymru i ben.

# Dysgu pellach i bawb



Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**